

## **Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 26/3/2024 am 7 o'r gloch  
Minutes of the Full Council meeting held at the Town Council Chamber 26/3/2024 at 7pm

**Presennol/Present:** Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Julie Edwards, Meg Roberts, Gordon Warren, Gerry Belanger, Noel Kerr, Alan Wood, Nina Bulkeley, Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Gareth Thomas, Veronica Holdsworth, Liz Wood, John Gill, Derek Owen

**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithydd/interpretation)

### **1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**

Bu Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod a croesawyd pawb yn bresennol.  
*Gareth Roberts chaired the meeting and welcomed all present.*

### **2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest**

Dim datganiadau newydd / No new declarations

### **3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**

Bu cymeradwyo'r cofnodion / *The minutes were approved.*

### **4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

#### **4.1 Hen Fanc Nat West Old Bank**

Cafwyd cadarnhad gan Menter Mon eu bod mewn trafodaethau i ddod i drefniant i nol eu hoffer o'r adeilad. Nodwyd nad oedd peiriant arian parod ar yr adeilad mwyach, a chyda'r peiriant ger Co-op yn aml ddim yn gweithio, bu gofyn sut oedd gwneud cais am beiriant arian parod i Borth Amlwch.

*Confirmation was received from Menter Mon that they are in discussions to come to an arrangement to retrieve their equipment from the building. It was noted that there was no longer a cash machine on the building, and with the machine near Co-op often not working, it was asked how to apply for a cash machine to Porth Amlwch.*

#### **4.2 Llwybr Parys Farm Path**

Ni fu diweddariad gan CSYM, cytuno cysylltu a hwy i ofyn am gopi o'u hadroddiad.  
*There has been no update from IACC, agreed to contact them to request a copy of their report.*

#### **4.3 Llwybr Trecastell/A5025 Path**

Gofynnwyd am ddiweddariad am y llwybr gan nodi pryder eto am ei gyflwr. Er bod y llwybr wedi ei gofrestru, nid yw wedi ei fabwysiadu gan CSYM ac felly yn gyfrifoldeb ar y tîrfeddiannwr. Cytuno ysgrifennu ato eto i dynnu sylw am bryderon y gymuned.

*An update on the route was requested, again indicating concern about its condition. Although the route is registered, it has not been adopted by IACC and is therefore the responsibility of the landowner. Agree to write to him again to draw attention to the community's concerns.*

### **5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings -**

**5.1** Cafwyd grynoded gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod bwrdd llywodraethyr yr Ysgol Gynradd. Teimlai'r bwrdd dnod yw'r ffordd mae'r Ysgol yn cael ei ariannu (hy y fformiwla a ddefnyddwyd) yn deg o'i gymharu ag ysgolion llai. Nodwyd bod posib bydd colli aelodau staff y flwyddyn nesaf oherwydd diffyg arian. Bu'r cynghorwyr dynnu sylw bod CSYM wedi defnyddio peth o arian Shell yn y gorffennol i gefnogi cyllideb addysg. Bu cytuno ysgrifennu at y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, gyda chopi i'r tri aelod sirol yn gofyn am fwy o wybodaeth.

*A summary was given by Myrddin Owens following the meeting of the board of governors of the Primary School. The board felt that the way the School is funded (ie the formula used) is unfair compared to smaller schools. It was noted that there may be a loss of staff members next year due to a lack of funds. The councillors pointed out that the IACC had used some of Shell's money in the past to support the education budget. It was agreed to write to the Chief Executive and Leader of the Council, with a copy to the three county members asking for more information.*

- 5.2 Bu gofyn os oedd gwahoddiad swyddogol wedi'i estyn i gynrychiolaeth o'r Cyngor fynychu cyfarfod agored wedi ei drefnu gan Virginia Crosbie i drafod archfarchnad newydd posib i'r dref. Bu'r clerc gadanhau nad oedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad.

*It was asked whether an official invitation had been extended to a representative of the Council to attend an open meeting organised by Virginia Crosbie to discuss a possible new supermarket for the town. The clerk confirmed that the Council had not received an invitation.*

- 6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**  
Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Bu'r Pwyllgor gymeradwyo nifer o daliadau yn unol â'r arfer a bu cadarnhau balans y gwahanol gyfrifon er gwybodaeth. Nodwyd bod adroddiad yn dilyn asesiad risg tan wedi ei dderbyn a bod y clerc yn gweithredu fel bo angen.

Bu trafodaeth am sefydlu grwp i gefnogi ymdrechion codi arian Hosbis Dewi Sant gan nodi bod cynghorau ardal twrcelyn wedi gofyn am gydweithio.

Cadarnhawyd bod y clerc wedi ymateb i'r cyfreithiwr ac wedi cysylltu a WEFO am wybodaeth pellach yn ymwneud a'r achos yn erbyn y contactiwr. Nid oes ymateb pellach hyd yma, a bydd y clerc yn cysylltu eto.

Bu diweddariad am y sefyllfa bresennol am adeiladau Porth Amlwch gan gytuno bod angen cyfarfod gyda CSYM a Menter Mon cyn gynted a phosib.

Bu'r Pwyllgor drafod ac adolygu cyflogau staff a chytuno ar gyfraddau tal newydd o'r 1af Ebrill.

*A summary of the meeting was given by Myrddin Owens. The Committee approved a number of payments as usual practice and confirmed the balance of the various accounts for information. It was noted that a report had been received following the fire risk assessment review and that the clerk was taking action as required.*

*There was a discussion about establishing a group to support the fundraising efforts of St David's Hospice noting that the councils of the Twrcelyn ward have asked to work in partnership.*

*It was confirmed that the clerk had responded to the solicitor and contacted WEFO for further information relating to the case against the contactor. There is no further response as yet, and the clerk will contact again.*

*There was an update on the current situation regarding the Amlwch Port buildings, agreeing that a meeting with the IACC and Menter Mon is needed as soon as possible.*

*The Committee discussed and reviewed staff salaries and agreed on new pay rates from 1st April.*

- 7 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Committee Report**  
Bu'r clerc roi crynodeb o'r cyfarfod diwethaf a'r camau wedi eu cymryd a/neu ar y gweill. Bu tynnu sylw penodol at gae chwarae Maes Mona a'r hyn oedd wedi ei benderfynnu gan y Pwyllgor.

*The clerk gave a summary of the last meeting and the steps taken and/or in progress. Specific attention was drawn to the Maes Mona playing field and what had been decided by the Committee*

## **8 Materion Cynllunio / Planning Matters**

- 8.1 Bu ystyried y ceisiadau canlynol / *the following applications were considered:*  
FFPL/2023/127 Hafodllin Fawr – dim gwrthwynebiad/no objection  
FPL/2024/51 Gwyndy, Ffordd Porth Llechog – dim gwrthwynebiad/no objection

- 8.2 Cafwyd gwybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*  
FPL/2023/206 Kingdom Hall, Penybonc – wedi ei dynnu yn ol / withdrawn  
FPL/2024/11 40 Maes Mona – wedi ei ganiatau / approved

## **9 Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings**

Cafwyd ddiweddariad gan Gareth Roberts. Nodwyd nad oedd llawer o gynydd ar hyn o bryd a bod y sefyllfa gyfreithiol yn gymleth iawn. Mae nifer o broblemau angen eu trafod ymhellach cyn gallu symud ymlaen. Bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol i'r Cyngor Tref brynnu'r adeiladau i'w diogelu os oedd hyn

yn fwy delfydol i gyrff ariannu, gan gydweithio gyda cyrff eraill i reoli a chynnal yr adeiladau i'r dyfodol. Nodwyd pwysigrwydd cael cadarnhad am amodau grant hanesyddol ag oblygiadau cyfreithiol eraill. Bu cytuno ysgrifennu at Prif Weithredwr ac Arweinydd CSYM i dynnu sylw a nodi pryder am y sefyllfa bresennol.

*An update was given by Gareth Roberts. It was noted that there was not much progress at the moment and that the legal situation was very complicated. A number of problems need to be discussed further before we can move forward. The members were unanimously supportive of the Town Council buying the buildings to protect them if this was more favourable for funding bodies, working together with other organisations to manage and maintain the buildings for the future. The importance of obtaining confirmation of historical grant conditions with other legal implications was noted. It was agreed to write to the Chief Executive and Leader of IACC to draw attention and note concern about the current situation.*

#### **10 Cwt Clwb Hwyllo Porth Llechog / Bull Bay Boat Club Hut**

Daethpwyd at sylw'r Cyngor bryderon y gymuned bod yr adeilad am gael ei werthu. Mae'r adeilad wedi bod yn ganolbwynt Cymuned Porth Llechog ers degawdau nes yn ddiweddar iawn. Nodwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos Iau Mawrth 28 am 7yh gyda cynrychiolaeth o'r gymuned i drafod ymhellach. Mae croeso i unhryw aelod o'r Cyngor fynychu. Nodwyd pwysigrwydd diogelu asedau cymunedol hanesyddol er budd y gymuned ac i ddiogelu treftadaeth ac etifeddiaeth yr ardal. Cadarnhawyd bod ymholiadau eisioes gyda'r adran gynllunio i gael cofrestru'r adeilad gyda CADW. Bu crybwlly y posibilrwydd o brynnu'r adeilad a chydweithio gyda'r gymuned i'w reoli. Bydd posib trafod ymhellach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

*The Council's attention was brought to the community's concerns that the building was to be sold. The building has been the centre of the Bull Bay Community for decades until very recently. It was noted that a meeting had been arranged for Thursday evening March 28 at 7pm with a representation from the community to discuss further. Any member of the Council is welcome to attend. The importance of protecting historic community assets was noted for the benefit of the community and to protect the area's heritage and legacy. It was confirmed that inquiries have already been made with the planning department to have the building registered with CADW. The possibility of buying the building and working together with the community to manage it was discussed. It will be possible to discuss further when more information is available.*

#### **11 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

Ni fu cwestiynnau pellach i'r aelodau sirol. Bu Aled Morris Jones gadarnhau bod Derek Owen wedi ymddiheuro gan ei fod yn mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Llanbadrig yr un noson.

*There were no further questions for the county members. Aled Morris Jones confirmed Derek Owen had sent his apologies as he was at the Llanbadrig Community Council meeting that same evening.*

#### **12 Gohebiaeth / Correspondence**

Bu unrhyw eitemau o ohebiaeth eu hanfon i'r aelodau drwy ebost wrth iddynt ddod law. Bu'r clerc dynnu sylw at ebost ynglyn ag ymhynghoriad prosiect Teithio Llesol Mon sydd i'w gynnal yn Clwb y Gorlan 27/4/24 ac ar lein (dolen i ddilyn pan yn fyw)

*Any items of correspondence were sent to the members by email as they are received. The clerk drew attention to an email regarding the Anglesey Active Travel project consultation which is to be held at Clwb y Gorlan 27/4/24 and online (link to follow when live)*

#### **13 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn 23/4/24 am 7yh. Bu'r cyfarfod orffen am 8yh  
*The next Full Council meeting will be held 23/4/24 at 7pm. The meeting closed at 8pm.*

**Gareth Winston Roberts OBE, Cadeirydd / Chair, Cyngor Tref Amlwch Town Council**

CET03-24